OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 434 (Cy.52)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *27 Chwefror 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *28 Chwefror 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 108(2)(b)(iii), (3)(b) a (5) ac adran 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**) ac ar ôl gwneud y trefniadau hynny ar gyfer ymgynghori y maent o'r farn eu bod yn briodol yn unol ag adran 117 o Ddeddf Addysg 2002(**3**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Rhaglenni Addysgol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Rhaglenni Astudio ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2013 ac mae'n dod i rym ar 1 Medi 2013.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y cwricwlwm Cymraeg" ("*Welsh curriculum*") yw'r cwricwlwm a nodir yn—

(a) y ddogfen ar drywydd llythrennedd;

(b) y ddogfen llythrennedd — darllen;

(c) y ddogfen llythrennedd — llafaredd; ac

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn yr adrannau yn Neddf Addysg 2002 i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**3**) Fel y'i diwygiwyd gan baragraffau 11 a 19 o'r Atodlen i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1).

(d) y ddogfen llythrennedd — ysgrifennu;

ystyr "y ddogfen "ar drywydd llythrennedd"" ("*the ar drywydd llythrennedd document*") yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2013 o'r enw "Ar drywydd llythrennedd"(**4**);

ystyr "y ddogfen "ar drywydd rhifedd"" ("*the routes to numeracy document*") yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2013 o'r enw "Ar drywydd rhifedd"(**5**);

ystyr "y ddogfen "literacy — oracy"" ("*the literacy — oracy document*") yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2013 o'r enw "Literacy — Oracy across the curriculum"(**6**);

ystyr "y ddogfen "literacy — reading"" ("*the literacy — reading document*") yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2013 o'r enw "Literacy — Reading across the curriculum"(**7**);

ystyr "y ddogfen "literacy — writing"" ("*the literacy — writing document*") yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2013 o'r enw "Literacy — Writing across the curriculum"(**8**);

ystyr "y ddogfen "llythrennedd — darllen"" ("*the llythrennedd — darllen document*") yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2013 o'r enw "Llythrennedd — Darllen ar draws y cwricwlwm"(**9**);

ystyr "y ddogfen "llythrennedd — llafaredd"" ("*the llythrennedd — llafaredd document*") yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2013 o'r enw "Llythrennedd — Llafaredd ar draws y cwricwlwm"(**10**);

ystyr "y ddogfen "llythrennedd — ysgrifennu"" ("*the llythrennedd — ysgrifennu document*") yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2013 o'r enw "Llythrennedd — Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm"(**11**);

ystyr "y ddogfen "rhifedd"" ("*the numeracy document*") yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2013 o'r enw "Rhifedd"(**12**);

ystyr "y ddogfen "the routes to literacy"" ("*the routes to literacy document*") yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2013 o'r enw "Routes to literacy"(**13**);

ystyr "y meysydd dysgu perthnasol" ("*the relevant areas of learning*") yw—

(a) sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu; a

(b) datblygiad mathemategol;

ystyr "y pynciau perthnasol" ("*the relevant subjects*") yw—

(a) Saesneg;

(b) Cymraeg; ac

(c) mathemateg; ac

(**4**) Rhif ISBN 9780750487054.
(**5**) Rhif ISBN 9780750487078.
(**6**) Rhif ISBN 9780750486965.
(**7**) Rhif ISBN 9780750486989.
(**8**) Rhif ISBN 9780750487009.
(**9**) Rhif ISBN 9780750486996.
(**10**) Rhif ISBN 9780750486972.
(**11**) Rhif ISBN 9780750487016.
(**12**) Rhif ISBN 9780750487030.
(**13**) Rhif ISBN 9780750487047.

ystyr "ysgol Gymraeg" ("*Welsh-speaking school*") yw ysgol sy'n dilyn y cwricwlwm Cymraeg.

(2) Mae unrhyw gyfeiriadau yn y Gorchymyn hwn at yr ail gyfnod allweddol a'r trydydd cyfnod allweddol i'w dehongli yn unol ag adran 103(1)(b) ac (c) o Ddeddf Addysg 2002.

# RHAN 1

## Y Cyfnod Sylfaen

### Llythrennedd — llafaredd

**3.**—(1) Mae'r darpariaethau a nodir yn y rhan honno o'r ddogfen llythrennedd — llafaredd o'r enw "Y Cyfnod Sylfaen" yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni addysgol mewn perthynas â'r meysydd dysgu perthnasol ar gyfer ysgolion Cymraeg.

(2) Ar gyfer pob ysgol arall mae'r darpariaethau a nodir yn y rhan honno o'r ddogfen literacy — oracy o'r enw "Foundation Phase" yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni addysgol mewn perthynas â'r meysydd dysgu perthnasol.

### Llythrennedd — darllen

**4.**—(1) Mae'r darpariaethau a nodir yn y rhan honno o'r ddogfen llythrennedd — darllen o'r enw "Y Cyfnod Sylfaen" yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni addysgol mewn perthynas â'r meysydd dysgu perthnasol ar gyfer ysgolion Cymraeg.

(2) Ar gyfer pob ysgol arall mae'r darpariaethau a nodir yn y rhan honno o'r ddogfen literacy — reading o'r enw "Foundation Phase" yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni addysgol mewn perthynas â'r meysydd dysgu perthnasol.

### Llythrennedd — ysgrifennu

**5.**—(1) Mae'r darpariaethau a nodir yn y rhan honno o'r ddogfen llythrennedd — ysgrifennu o'r enw "Y Cyfnod Sylfaen" yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni addysgol mewn perthynas â'r meysydd dysgu perthnasol ar gyfer ysgolion Cymraeg.

(2) Ar gyfer pob ysgol arall mae'r darpariaethau a nodir yn y rhan honno o'r ddogfen literacy — writing o'r enw "Foundation Phase" yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni addysgol mewn perthynas â'r meysydd dysgu perthnasol.

### Rhifedd

**6.** Mae'r darpariaethau a nodir yn y rhan honno o'r ddogfen rhifedd o'r enw "Y Cyfnod Sylfaen" yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni addysgol mewn perthynas â'r meysydd dysgu perthnasol ar gyfer pob ysgol.

### Ar drywydd llythrennedd

**7.**—(1) Mae'r darpariaethau a nodir yn y ddogfen ar drywydd llythrennedd yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni addysgol mewn perthynas â'r meysydd dysgu perthnasol ar gyfer ysgolion Cymraeg.

(2) Ar gyfer pob ysgol arall mae'r darpariaethau a nodir yn y ddogfen the routes to literacy yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni addysgol mewn perthynas â'r meysydd dysgu perthnasol.

**Ar drywydd rhifedd**

**8.** Mae'r darpariaethau a nodir yn y ddogfen ar drywydd rhifedd yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni addysgol mewn perthynas â'r meysydd dysgu perthnasol ar gyfer pob ysgol.

# RHAN 2

## Yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol

**Llythrennedd — llafaredd**

**9.**—(1) Mae'r darpariaethau a nodir yn y rhannau hynny o'r ddogfen literacy — oracy o'r enw "Key Stage 2" a "Key Stage 3" yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni astudio mewn perthynas â'r pynciau perthnasol ar gyfer pob ysgol.

(2) Mae'r darpariaethau a nodir yn y rhannau hynny o'r ddogfen llythrennedd — llafaredd o'r enw "Cyfnod Allweddol 2" a "Cyfnod Allweddol 3" yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni astudio mewn perthynas â'r pynciau perthnasol ar gyfer ysgolion Cymraeg.

**Llythrennedd — darllen**

**10.**—(1) Mae'r darpariaethau a nodir yn y rhannau hynny o'r ddogfen literacy — reading o'r enw "Key Stage 2" a "Key Stage 3" yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni astudio mewn perthynas â'r pynciau perthnasol ar gyfer pob ysgol.

(2) Mae'r darpariaethau a nodir yn y rhannau hynny o'r ddogfen llythrennedd — darllen o'r enw "Cyfnod Allweddol 2" a "Cyfnod Allweddol 3" yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni astudio mewn perthynas â'r pynciau perthnasol ar gyfer ysgolion Cymraeg.

**Llythrennedd — ysgrifennu**

**11.**—(1) Mae'r darpariaethau a nodir yn y rhannau hynny o'r ddogfen literacy — writing o'r enw "Key Stage 2" a "Key Stage 3" yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni astudio mewn perthynas â'r pynciau perthnasol ar gyfer pob ysgol.

(2) Mae'r darpariaethau a nodir yn y rhannau hynny o'r ddogfen llythrennedd — ysgrifennu o'r enw "Cyfnod Allweddol 2" a "Cyfnod Allweddol 3" yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni astudio mewn perthynas â'r pynciau perthnasol ar gyfer ysgolion Cymraeg.

**Rhifedd**

**12.** Mae'r darpariaethau a nodir yn y rhannau hynny o'r ddogfen rhifedd o'r enw "Cyfnod Allweddol 2" a "Cyfnod Allweddol 3" yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni astudio mewn perthynas â'r pynciau perthnasol ar gyfer pob ysgol.

**Ar drywydd llythrennedd**

**13.**—(1) Mae'r darpariaethau a nodir yn y ddogfen ar drywydd llythrennedd yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni astudio mewn perthynas â'r pynciau perthnasol ar gyfer ysgolion Cymraeg.

(2) Ar gyfer pob ysgol arall mae'r darpariaethau a nodir yn y ddogfen ar drywydd llythrennedd yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni astudio mewn perthynas â'r pynciau perthnasol.

**Ar drywydd rhifedd**

**14.** Mae'r darpariaethau a nodir yn y ddogfen ar drywydd rhifedd yn cael effaith at y diben o bennu rhaglenni astudio mewn perthynas â'r pynciau perthnasol ar gyfer pob ysgol.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

27 Chwefror 2013

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 108(2)(b)(iii) a (3) o Ddeddf Addysg 2002 yn darparu pwer i Weinidogion Cymru ragnodi drwy Orchymyn raglenni addysgol mewn cysylltiad â'r cyfnod sylfaen a rhaglenni astudio mewn cysylltiad â'r cyfnodau allweddol. Mae'r rhaglenni addysgol a'r rhaglenni astudio yn nodi'r hyn y mae rhaid ei addysgu i ddisgyblion.

Rhoddwyd effaith gyfreithiol i'r rhaglenni addysgol presennol ar gyfer y meysydd dysgu yn y cyfnod sylfaen gan Orchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008. Rhoddwyd effaith gyfreithiol i'r rhaglenni astudio presennol ar gyfer y pynciau yn yr ail gyfnod allweddol, y trydydd cyfnod allweddol a'r pedwerydd cyfnod allweddol gan Orchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith gyfreithiol i raglenni addysgol ychwanegol ar gyfer meysydd dysgu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol yn y cyfnod sylfaen (Rhan 1 o'r Gorchymyn).

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn rhoi effaith gyfreithiol i'r rhaglenni astudio ychwanegol mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg yn yr ail gyfnod allweddol a'r trydydd cyfnod allweddol (Rhan 2 o'r Gorchymyn).